4YDD O HYDREF

# Ysgol Treganna

## Cylchlythyr wythnosol




## Wythnos yma

Rydym yn hapus i gyhoeddi bod ein gwefan newydd nawr yn fyw! Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth am yr ysgol yn cynnwys polisïau ysgol, manylion am glybiau, gwybodaeth am ein cwricwlwm, pwyllgorau llais y disgybl a llawer mwy. Mae calendr ar y wefan sy'n cynnwys holl ddyddiadau pwysig y tymor a bydd cylchlythyron a'r cyswllt yn cael eu rhoi ar y wefan yn wythnosol. Diolch i'r holl staff sydd wedi cyfrannu at y wefan, diolch hefyd i Sioned Birchall am dynnu'r lluniau a Rheinallt Rees am y clip ffilm "drone".

Mae hefyd gennym brosbectws ysgol newydd sbon sydd ar ein gwefan. Yn y prosbectws mae gwybodaeth am ein holl weithdrefnau ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am y wisg ysgol, amseroedd yr ysgol, trefniadau cinio a'n prosesau diogelu.

Llongyfarchiadau mawr i'r 4 tîm wnaeth gynrychioli'r ysgol yr wythnos hon ym mhencampwriaeth pêl droed yr Urdd. Roedd pawb wedi ymdrechu yn arbennig a llwyddodd un tîm i ddod yn ail, felly ymlaen a nawr ni i Aberystwyth! Diolch yn fawr i'r staff wnaeth hyfforddi a gofalu am y disgyblion.

Diolch yn fawr i bawb a wnaeth fynychu'r cyflwyniad rhieni ddoe yn neuadd yr ysgol. Roedd yn hyfryd i gyfarfod â nifer o rieni newydd ac i gymdeithasu dros baned. Diolch hefyd i Group Ed am fynychu'r cyflwyniad.

Cofiwch bydd cyswllt wythnosol a chylchlythyron yr ysgol yn cael eu danfon allan trwy Group Ed, felly sicrhewch eich bod wedi lawrlwytho'r ap. Os oes angen unrhyw gymorth arnoch, cofiwch i gysylltu gyda'r ysgol.

## Calendr

**Bws Beic**
**18/10/24**

**Diwrnod HMS (dim ysgol i'r plant)**
**25/10/24**

# Y Nyth

Tymor yma rydym wedi sefydlu Hwb Cymunedol i'n rhieni yn yr ysgol, sef "Y Nyth". Rydym yn cynnig sesiynau galw heibio bob prynhawn dydd Gwener. Os oes gennych unrhyw bryderon, cwestiynau neu am gyngor, mae croeso i chi alw heibio am sgwrs efo Mrs Rhiannydd Jones, Arweinydd Lles a'r Gymuned yr ysgol. Bydd unrhyw bryderon yn cael eu delio gyda mewn modd sensitif. PWYSIG: Mi fydd angen cysylltu â Swyddfa'r Ysgol i fwcio slot amser.

Sesiynau 'Galw Heibio'

Rydym hefyd yn cynnal gweithdai i rieni ac mae dau weithdy wedi eu trefnu ar gyfer mis yma.

Yr un cyntaf yw hyfforddiant Cefnogi Llythrennedd Gartref, y cyflwynydd fydd Lisa Sarracini sef Athrawes Arbenigol yr Awdurdod Lleol a bydd y gweithdy am 4.00 o'r gloch ar ddydd Llun, 7fed o Hydref.

Cliciwch yma i gofrestru

Bydd yr ail weithdy ar ddydd Gwener y 18 o Hydref am 9.15yb a'r hyfforddwr fydd Gareth Jones, athro arbenigol o'r awdurdod lleol ac yn y gweithdy bydd yn cynnig strategaethau i rieni sut i gefnogi pan fydd plant yn cael eu llethu gan emosiynau mawr.


Cliciwch yma i gofrestru

Mae hefyd gennym Fforwm Rhieni ar gyfer rhieni disgyblion sydd wedi cael diagnosis o Awtistiaeth ac/neu ADHD, neu sydd yn y broses o dderbyn diagnosis (h.y. ar y llwybr asesu Niwroddatblygiadol), sef grŵp ar gyfer cefnogi rhieni, cyn rhieni, gofalwyr, neiniau a theidiau. Bydd y cyfarfod cyntaf ar ddydd Iau Hydref 17 am 4.30yp.

Fforwm Rhieni

Byddwn hefyd yn cynnig sesiynau 'Cwrdd â'r Tîm' yn ystod y tymor.

Diolch i Miss Mererid Lewis, ein Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, am ei holl waith yn trefnu'r gweithgareddau yma. Mae manylion yr holl weithdai ac amserlen Y Nyth wedi eu cynnwys isod ac ar wefan yr ysgol hefyd.



YSGOL TREGANNA

Y NYTH Hydref 2024

Tyfu ar y Cyd â'r Gymuned

| GWEITHDY | | DYDDIAD | AMSER | HYFFORDDWR/ CYFLWYNYDD | MANYLION Y GWEITHDY/HYFFORDDIANT A DREFNWYD | MANYLION COFRESTRU |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cefnogi Llythrennedd Gartref**<br>Wythnos Ymwybyddiaeth Dyslecsia (7-13 Hydref) | | Dydd Llun 7 Hyd, 2024 | 16.00yp | Lisa Sarracini (Athro Arbenigol, Awdurdod Lleol) | Gweithdy sy'n cynnig syniadau ymarferol i rieni/gofalwyr ar sut i gefnogi llythrennedd yn y cartref. Mi fydd y sesiwn yn para oddeutu 1 awr ac yn cael ei gyflwyno drwy gyfrwng y Saesneg. | Lle i hyd at 25 |
| **Delio ag Emosiynau Mawr**<br>Mis Ymwybyddiaeth ADHD | | Dydd Gwener 18 Hyd, 2024 | 09.15yb | Gareth Jones (Athro Arbenigol, Awdurdod Lleol) | Yn aml, gall plant gael eu llethu gan emosiynau mawr. Gall hyn fod yn anodd iawn i rieni ar brydiau, felly dyma weithdy sy'n cynnig strategaethau ar sut i gefnogi'r plentyn orau. Mi fydd y sesiwn yn para oddeutu 45 munud ac yn cael ei gyflwyno drwy gyfrwng y Saesneg. | Lle i hyd at 25 |

**11 Hyd, 2024**
10.00yb-12.00yp
**Cwrdd â'r Tîm**
Cyfle i gwrdd â Miss Mererid Lewis, Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol, ynghyd â Mrs Rhiannydd Jones, Arweinydd Lles a'r Gymuned.
Sesiwn anffurfiol. Gall rhieni alw heibio ar unrhyw adeg yn ystod y sesiwn. Bydd paned a lluniaeth ysgafn ar gael.

**24 Hyd, 2024**
14.00yp-16.00yp
**Cwrdd â'r Tîm**
Cyfle i gwrdd â staff Jig-so a'r Cwtch. Bydd cyfle hefyd i ymweld â'r ystafelloedd dysgu.
Sesiwn anffurfiol. Gall rhieni alw heibio ar unrhyw adeg yn ystod y sesiwn. Bydd paned a lluniaeth ysgafn ar gael.

**Bob prynhawn dydd Gwener**
1.00yp-3.30yp
**Sesiwn 'Galw Heibio'**
efo Mrs Rhiannydd Jones, Arweinydd Lles a'r Gymuned
PWYSIG: Cysylltwch â Swyddfa'r Ysgol i fwcio slot amser.

**FFORWM RHIENI**
Grŵp ar gyfer rhieni plant sydd wedi cael diagnosis Awtistiaeth ac/neu ADHD, neu sydd yn y broses o dderbyn diagnosis (h.y. ar y llwybr asesu Niwroddatblygiadol).
Cyfarfod Cyntaf:
Dydd Iau, Hydref 17eg am 4.30yp

029 2059 0830 ysgoltreganna.cymru Ysgol Treganna, Caerdydd

## Y Gymdeithas Rhieni

Bydd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn cynnal cyfarfod ar nos Fercher y 9fed o Hydref am 7yh yn Nhafarn Parc Victoria. Mae croeso i bawb, yn enwedig aelodau newydd. Rydym yn chwilio am drysorydd newydd i ganiatáu i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon barhau, os hoffech wirfoddoli ar gyfer y rôl hon, dewch i'r cyfarfod neu cysylltwch â'ch cynrychiolydd dosbarth. Rydym hefyd yn chwilio am gynrychiolwyr dosbarth Meithrin bore a Meithrin prynhawn. Cysylltwch gyda'r dderbynfa os allwch chi gynorthwyo.

## Cadw chi a'ch teulu yn ddiogel ar lein

Mae'r daflen a fideo ategol yma yn tynnu sylw at y gefnogaeth sydd ar gael i deuluoedd gadw'n ddiogel ar-lein.

**https://hwb.gov.wales/repository/resource/bd009b61-6502-4a16-98cb-5e461c33fa88/overview**

## Patrwm Iaith

**Wythnos nesaf, dyma batrwm iaith yr wythnos**
Rydw i'n hoffi…/Dwi'n hoffi…
Dydw i ddim yn hoffi
**Her**
Mae'n well gen i…na

**Testun trafod yr wythnos**
Y peth pwysicaf yn y byd yw…

**Cân yr wythnos**
Eadyth & Endaf - Mwy o gariad

**Idiom yr wythnos**
Bwrw hen wragedd a ffyn